
# Beth yw dolen glyw?




Math arbennig o system sain a gaiff ei defnyddio gan bobl â chymhorthion clyw yw dolen sain (a gaiff ei galw weithiau'n ddolen sain anwythol) Mae'r ddolen glyw yn anfon signal di-wifr magnetig y bydd y cymorth clyw yn ei glywed pan fydd ar y gosodiad 'T' (Telecoil).

Mae'r ddolen glyw yn cynnwys microffon ar gyfer clywed pobl yn siarad; mwyhadur sy'n prosesu'r signal a gaiff ei anfon wedyn drwy'r teclyn yn y pen draw; cebl y ddolen, sef gwifren a gaiff ei gosod o amgylch perimedr ardal benodol, e.e. ystafell gyfarfod, eglwys, cownter gwasanaeth ac ati, er mwyn gweithredu fel antena sy'n anfon y signal magnetig i'r cymorth clyw. Mae systemau dolen personol hefyd ar gael (a gaiff eu gwisgo o gwmpas y gwddf) a gellir eu defnyddio gyda chwaraewyr MP3, setiau teledu a rhai ffonau llinell tir, er enghraifft.

## Pam defnyddio dolen glyw?

- Mae'n cael gwared ar unrhyw sŵn cefndir dieisiau
- Nid oes angen defnyddio derbynnydd/clustffon
- Mae'r sain yn mynd yn uniongyrchol i'r cymorth clyw
- Gall unrhyw un sydd â chymorth clyw cydnaws ei defnyddio
- Gall nifer diderfyn o bobl ddefnyddio'r system

Noder: mae'r rhan fwyaf o gymhorthion clyw yn gydnaws â'r system dolen, ond nid yw'r nodwedd wedi'i throi ymlaen yn ddiofyn. Gofynnwch i'ch Awdiolegydd alluogi hyn.

Y dewis cywir ar gyfer y GIG


danalogic GN

UK 02.09 D12.2019


## Systemau isgoch

Dewis arall yn lle systemau dolen yw systemau isgoch. Maent yn cynnwys trawsyrrydd a derbynnydd (neu nifer o dderbynyddion). Mae'r trawsyrrydd yn anfon y signal i'r derbynnydd, sy'n ei drosi'n signal sain a gaiff ei fwydo i glustffon neu ddolen gwddf.

## Isod ceir diagram o ddolen glyw ar gownter mewn siop neu fanc




## Isod ceir diagram o ddolen glyw mewn ystafell
**(e.e. mewn digwyddiad, man addoli ac ati)**




Gwybodaeth a diagramau gan Hearing Link – ar gael yn www.hearinglink.org